# Gyrru ceffylau at ddibenion arbenigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu gyrru ceffylau at ddibenion arbenigol.

Mae'n cynnwys gallu dewis ceffylau ar gyfer gwaith arbenigol yn unol â'u gallu corfforol a'u ffitrwydd, natur, profiad ac ymddangosiad. Byddwch yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn ymwneud â safle ceffylau unigol mewn lliaws, a chyflwyno ceffylau newydd i liaws.

Byddwch yn deall sut i sefydlu ac addasu'r harnais er mwyn cael y perfformiad gorau.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod y dibenion arbenigol y bydd y ceffylau'n cael eu defnyddio ar eu cyfer
2. sicrhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
3. dewis ceffylau sydd yn addas ac yn ategu ei gilydd ar gyfer y diben arbenigol a fwriadwyd
4. asesu natur ceffylau unigol, a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer ystod o ddibenion cyffredinol
5. pennu safle ceffylau unigol o fewn lliaws yn unol â'u rhinweddau unigol
6. dewis cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau sydd yn addas at y diben arbenigol
7. dewis a gosod harneisiau ar geffylau unigol
8. gwneud gwiriadau cyn gyrru fel mater o drefn ar geffylau, harneisiau a cherbydau
9. ymdrin â'r ffrwynau'n gywir ar gyfer y defnydd arbenigol
10. bod yn gyfrifol am ofalu am y ceffylau ar ôl eu defnyddio
11. bod yn gyfrifol am lanhau, cynnal a chadw a storio'r harnais a'r cerbyd ar ôl eu defnyddio
12. cyfeirio gweithgareddau'r criw o Weision Ceffylau Harnais i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw diogelwch a lles y ceffylau tra'n cael eu gyrru
13. gyrru ceffylau at ddibenion arbenigol yn unol â gofynion deddfwriaethol a chodau ymarfer perthnasol, gan ystyried defnyddwyr eraill y ffordd
14. monitro ymddygiad y ceffylau tra'n gyrru, a gweithredu'n gadarnhaol i leihau straen a chynnal eu lles
15. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
16. asesu'r peryglon a rheoli'r risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn gyrru ceffylau at ddibenion arbenigol
2. y dillad a'r offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
3. y meini prawf ar gyfer dewis ceffylau unigol addas ar gyfer y diben arbenigol
4. y meini prawf ar gyfer dewis ceffylau i weithio gyda'i gilydd fel rhan o liaws
5. sut i asesu ffitrwydd a gallu ceffylau unigol ar gyfer gwaith arbenigol
6. sut i asesu natur ac ymddygiad ceffylau unigol
7. y meini prawf ar gyfer pennu safle pob ceffyl o fewn lliaws
8. sut i osod, sefydlu ac addasu'r harnais er mwyn cael y perfformiad gorau
9. sut i sefydlu ac addasu tandemau ac ungyrn
10. sut i ddewis cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau arbenigol addas
11. sut i fonitro ceffylau unigol tra'n gyrru fel lliaws
12. sut i drin y ffrwynau'n gywir mewn perthynas â'r diben arbenigol
13. sut i werthuso effeithiolrwydd lliaws fel cyfanrwydd tra'n gyrru
14. sut i leihau straen a sut i hybu lles ceffylau tra'n gyrru
15. sut i gyfeirio'r criw o Weision Ceffylau Harnais i gynorthwyo'n effeithiol i gadw rheolaeth, a diogelwch a lles y ceffylau tra'n gyrru
16. y peryglon sy'n gysylltiedig â thandemau ac ungyrn
17. y gofynion deddfwriaethol a'r codau ymarfer perthnasol yn ymwneud â gyrru ceffylau ar y briffordd gyhoeddus at ddibenion arbenigol
18. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
19. sut i sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yn ystod y gweithgaredd hwn

## Cwmpas/Ystod

Dewis lliaws o geffylau sy'n ategu ei gilydd wrth yrru, o ran:

- ffitrwydd a gallu
- taldra a hyd camau
- profiad, hyfforddiant a natur
- ymddangosiad
- addasrwydd ar gyfer cydweithio

Gyrru ceffylau at ddibenion arbenigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq504 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; gyrru; arbenigol |